# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# 28 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | J.K. Howell | A.C. Jones |
| M.J.A. Lewis | B.D.J. Phillips | E. Skinner | R. Sparks |
| G.B. Thomas | | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| T. Davies | A. Leyshon | D. Owen | M. Thomas |
| D.E. Williams | | | |

**Hefyd yn bresennol:**

- Y Cynghorydd H.A.L. Evans a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio PL/00152 and PL/03344 (Yn y Siambr)
- Y Cynghorydd D. Jones a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio PL/06809 (Yn y Siambr)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi;
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
S. Martin, Cyfreithiwr;
G. Glenister, Uwch Swyddog Gorfodi a Monitro;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00 yb – 3:14yp.**

[**NODER:**
Am 11:25am cafodd y Pwyllgor egwyl ac ailymgynullodd am 11:30am.
Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.
Am 1:00pm, torrodd y Pwyllgor am ginio ac ailymgynullodd am 2:05pm.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Cooper ac M. Donoghue.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd/ Swyddog | Eitem | Rheswm |
|---|---|---|
| G. Glenister | PL/07084 – Adeilad allanol newydd i'w ddefnyddio fel cegin baratoi masnachol a storfa ddomestig yn 1 Parc Y Saint, Llan-saint, Cydweli, SA17 5JJ | Ei chwaer yw'r ymgeisydd |

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00152** | **Adeiladu gwaith trin elifiant newydd yn lle'r ased presennol sydd wedi dyddio oherwydd gwelliannau mewn technoleg a phrosesau trin yn Dairy Partners, The Creamery, Aberarad, Castellnewydd Emlyn, SA38 9DQ**<br><br>-<br>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Gorfodi a Monitro, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr amodau, am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y pwyntiau isod:<br><br>• Dwysáu<br>• ôl-weithredol<br>• Amwynder<br>• Sŵn wrth bwmpio i mewn i danceri<br>• Sŵn o'r brif ffatri (gofynnwyd am ffens acwstig)<br>• Arogleuon o danciau a thanceri slyri<br>• Dirgryndod o'r peiriannau<br>• Edrych dros eiddo (pan fydd tanciau'n cael eu cynnal)<br>• Dylid asesu'r safle yn ei gyfanrwydd<br>• Colli cyflenwad dŵr<br>• Cymeriad / Lleoliad mewn Man Preswyl<br>• Cymeriad yr Ardal<br>• Effaith ar leoliad Adeilad Rhestredig Gradd II<br>• Llifogydd<br>• Mae'r safle a'r briffordd gyhoeddus yn agored i lifogydd<br>• Elifiant neu gemegau yn gollwng<br>• Llygredd Dŵr |

| | |
|---|---|
| | • Diogelwch Cerddwyr (angen palmant)<br>• Priffyrdd – Dwysáu Symudiadau Lorïau<br>• 'Ardal Droi'<br>• Iechyd a Diogelwch ar ôl ffrwydrad ger tanc LNG<br>• Cwynion yn erbyn ymgysylltiad gan y cwmni a'r Awdurdod Cynllunio.<br><br>Ymatebodd yr Asiant a'r Uwch-swyddog Gorfodi a Monitro i'r pwyntiau a godwyd.<br><br>Daeth sylw i law gan yr aelod lleol yn cefnogi'r cais yn datgan bod y cwmni'n gyfrannwr mawr i'r economi ac y byddai'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad yn gwarchod y pryderon.<br><br>Cynigiwyd ymweliad safle i alluogi Aelodau'r Pwyllgor i gael profiad personol o lefel yr arogl sy'n dod o'r safle. Er bod hyn wedi'i eilio, methodd y cynnig. |
| **PL/03344** | **Gosod Tanciau Glanhau Newydd (CIP) a byndiau newydd cysylltiedig yn The Creamery, Aberarad, Castellnewydd Emlyn, SA38 9DQ**<br><br>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Gorfodi a Monitro, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr amodau, am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y pwyntiau isod:<br><br>• Mae problemau hirdymor gyda gweithrediad y safle a'r Gwaith Trin Elifion anawdurdodedig.<br>• Amwynder<br>• Dwysáu ers 2017 yn dyblu cynhyrchiant.<br>• Gweithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos<br>• Sŵn ac Aflonyddwch<br><br>Ymatebodd yr Asiant a'r Uwch-swyddog Gorfodi a Monitro i'r pwyntiau a godwyd.<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais. |

| | |
|---|---|
| **PL/07177** | **Codi Adeilad Da Byw Arfaethedig at Ddefnydd Amaethyddol a Cheffylau gyda Llawr Caled Ategol a Thirlunio [Ailgyflwyno PL/05674 a Wrthodwyd ar 18/07/2023] ar Dir yn Mellions, Heol Ddu, Rhydaman, SA18 2UG**<br><br>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth], rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais yn unol ag amodau ac am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylw ar ran gwrthwynebydd sy'n byw yn union islaw'r datblygiad arfaethedig, yn gwrthwynebu'r cais a oedd yn ailadrodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ac a oedd yn cynnwys y pwyntiau a nodir isod:<br><br>• Pryderon ynglŷn â diffyg arolwg coed a diffyg cyfeiriad yn y cais at Glymog Japan;<br>• Diffyg ceisiadau i dynnu neu ddatblygu gwrychoedd i wella gwelededd;<br>• Nid oes Asesiad Isadeiledd Gwyrdd wedi ei gyflwyno o fewn y cais;<br>• mae'r fynedfa i Mellions yn gyfyng ac mae'n anodd gweld yn glir yma ac ar ael y bryn sy'n mynd yn fwy serth.<br><br>Ymatebodd yr Asiant a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth] i'r pwyntiau a godwyd. |
| **PL/06809** | **Gosod carafán breswyl sefydlog yn lle adeilad allanol dros dro at ddefnydd swyddfeydd ar dir sy'n rhan o Poplar Court, Heol Llandeilo, Cross Hands, SA14 6NB**<br><br>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth], rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais yn unol ag amodau ac am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Daeth sylw i law yn gwrthwynebu'r cais a oedd yn ailadrodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ac a oedd yn cynnwys y pwyntiau a nodir isod:<br><br>• Nid yw'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a nodir gan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013; |

| | |
|---|---|
| | • Materion diogelwch mewn perthynas â'r pellteroedd gofynnol fel y nodir yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br><br>Derbyniwyd sylw gan yr aelod lleol yn gwrthwynebu'r cais. Ategodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ac ychwanegodd y byddai oedran cyffredinol y trigolion dros 50 oed, yn golygu ei fod yn rhy bell iddynt gerdded i fwynderau lleol o'r safle.<br><br>Ymatebodd yr Asiant, yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth] a'r Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi i'r pwyntiau a godwyd. |
| **PL/06943** | **Preswylfa newydd i gynnwys lle parcio a throi newydd ar gyfer y breswylfa bresennol (Waun Cefn) ar Dir yn Wauncefn, Heol Ddu, Rhydaman, SA18 2UN** |
| **PL/007084** | **Adeilad allanol newydd i'w ddefnyddio fel cegin baratoi masnachol a storfa ddomestig yn 1 Parc Y Saint, Llan-saint, Cydweli, SA17 5JJ**<br><br>Noder: Roedd Mr Gary Glenister, yr Uwch-swyddog Gorfodi a Monitro wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach, ac roedd wedi gadael y cyfarfod yn gynharach. |

## 4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 18 Mawrth, 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 5.1. 29 CHWEFROR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Chwefror, 2024 gan eu bod yn gywir.**

### 5.2. 12 MAWRTH 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024, gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**